


# Biosffer Dyfi Biosphere

*gwerth y byd - world class by nature*



## Cynllun Twristiaeth 2014 – 2017



gwaith ca f © Mair Hughes

**Nod y Cynllun hwn yw i'r ardal ddatblygu'n  
gyrchfan gynaliadwy o safon rhyngwladol  
erbyn 2017**

**Fersiwn 3 – 14/2/14 yn cymeryd lle fersiwn 13/12/2013**

	<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Strategaeth</b>	<b>Cyflwyniad ac amcan</b>	3
	<b>Cydlynu</b>	3
	<b>Dadansoddiad o'r sefyllfa</b>	4
	<b>Lleoli a marchnadoedd</b>	5
	<b>Nod</b>	6
	<b>Amcanion</b>	6
<b>Cynllun gweithredu</b>	<b>Sut i ddarllen y tablau</b>	7
	<b>Crynodeb o allbynnau a ragwelir</b>	7
<b>Tabl 1</b>	<b>Datblygu cynnyrch</b>	8
<b>Tabl 2</b>	<b>Y bobl a'r ardal</b>	12
<b>Tabl 3</b>	<b>Hyrwyddo</b>	16
	<b>Cynnydd, dangosyddion, monitro, adolygu</b>	18
	<b>Geirfa – eglurhad o lythrenwau ac enwau</b>	19
Atodiad 1:	Grŵp gweithredol Cyrchfan Dyfi: Cylch Gorchwyl	
Atodiad 2:	Cynlluniau twristiaeth perthnasol	
Atodiad 3:	Cymhariaeth o gynnwys arolygon twristiaeth	
Atodiad 4:	Crynodeb o ymchwil ymwelwyr 2006	
Atodiad 5:	Crynodeb o ystadegau twristaidd Biosffer Dyfi	
Atodiad 6:	Wynebau'r Biosffer: disgrifiad/gwahoddiad	
Atodiad 7:	Cyfeiriadau	

## **Cyflwyniad ac amcan**

Mae Croeso Cymru a Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi clustnodi nifer o ardaloedd daearyddol, "cyrchfannau", lle y gall sylw clos, cydlynol, gynyddu'r economi twristiaidd. Yn gynyddol, bydd cefnogaeth sector gyhoeddus i dwristiaeth yn cael ei gyfeirio drwy'r cyrchfannau yma, OS oes ganddynt gynlluniau ymarferol ar gyfer datblygu, rheoli a marchnata sydd dan arolygaeth partneriaeth gredadwy o ddiddordebau sector breifat a chyhoeddus.

Yn y Canolbarth mae Eryri/Gwynedd, Ceredigion, Bannau Brycheiniog, Biosffer Dyfi a Mynyddoedd Cambria oll wedi eu dynodi fel "cyrchfannau". Yn ogystal, mae'r cysylltiadau o fewn canol a gogledd Powys yn cael eu cryfhau, gyda'r bwriad o wella'r cynnyrch twristiaidd a chysylltu clystyrau o fusnesau bach.

Mae Biosffer Dyfi'n cynnwys Dyffryn Dyfi ac Aberystwyth ac mewn lleoliad da i gysylltu â brandiau twristiaidd cyfagos sy'n uwch eu proffil ac yn gorgyffwrdd. Mae'r clod a'r statws rhyngwladol (Gwarchodfa Biosffer UNESCO – y cyntaf yng Nghymru) yn cydnabod arwyddocâd yr ardal o safbwynt ei chynefinoedd naturiol amrywiol, ei threftadaeth ddwyieithog ac ymdrechion ei phobl i wneud cyfraniad adeiladol tuag at greu byd mwy cynaliadwy.

Ymhlith y lleoliadau a sefydliadau sy'n ennyn gwerthfawrogiad o'r dreftadaeth a'r amgylchedd mae'r Warchodfa Natur Genedlaethol yn Ynyslas, Gwarchodfa'r Gymdeithas Adar Frenhinol yn Ynys-hir, Prosiect Gwalch y Pysgod ger Cors Dyfi, Ffwrnais Dyfi, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Ceredigion, Machynlleth fel prifddinas hynafol Cymru a'i chysylltiadau â Owain Glyndŵr ynghyd â rhwydwaith wych o lwybrau cyhoeddus.

Mae'r cynllun cyrchfan yma'n ceisio amlygu anghenion ymwelwyr a dulliau o'u digoni, ynghyd â rhestr o gynlluniau fel canllaw i weithredu. Yn ogystal gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth gefnogol mewn ceisiadau cyllido.

## **Cydlynu**

Mae'r cynllun yma'n rhan bwysig o ddogfen ehangach, Cynllun Cydlynu Partneriaeth Biosffer Dyfi 2014-2019. Fe'i rheolir gan grŵp gweithredol o'r Bartneriaeth dan yr enw Cyrchfan Biosffer Dyfi. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r fasnach dwristiaidd (drwy Gymdeithas Twristiaeth Biosffer Dyfi) a chyrrff cefnogol o'r sector gyhoeddus. Gellir gweld y cylch gorchwyl yn Atodiad 1. Ecodyfi sy'n cydlynu a datblygu rhai o weithgareddau'r grŵp er nad oes sicrwydd cyllido tu hwnt i 31 Mawrth 2014.

Mae'r cynllun yn cynnwys gweithgareddau allweddol, dan arweiniad Cymdeithas Twristiaeth Biosffer Dyfi ac mae'n cydnabod cynlluniau rhai grwpiau cymunedol cysylltiedig, lleol, llai. Fel y nodir yn Atodiad 2, mae'n cynorthwyo'r broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau twristiaeth ar sawl lefel: awdurdodau lleol, y Canolbarth a Chymru gyfan, yn enwedig *Partneriaeth ar gyfer Tŵf* – strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020. Drwy hynny mae cydweithio gyda chyrchfannau gerllaw yn cael ei gryfhau, wedi ei hwyluso gan Bartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## **Dadansoddiad o'r sefyllfa**

Darganfyddodd Arolwg *Ymwelwyr Powys 2013* fod "Dyffryn Dyfi'n denu canran uchel iawn o ymwelwyr hŷn, ffyddlon, sy'n bwysig i sefydlogrwydd yr economi twristaidd leol. Er hynny, ymddengys nad yw'r 'is-ardal' hon yn denu ymwelwyr newydd o'i chymharu ag is-ardaloedd eraill ym Mhowys; efallai fod y sefyllfa yma'n haeddu sylw." Mae'r adroddiad yn dangos rhai gwahaniaethau sylweddol o gymharu â gweddill Powys ond mae maint bychan y sampl (44) yn cyfyngu ar hyder yn ei gasgliadau. Er enghraifft, "Mae canran sylweddol (93%) o ymwelwyr i Ddyffryn Dyfi'n ymwelwyr ffyddlon, sydd yn uchel iawn o gymharu a'r cyfartaledd am weddill Powys (57%)". Yn ogystal, cynhaliwyd y cyfweiliadau yn nhref Machynlleth, sy'n annhebygol o adlewyrchu'r sefyllfa yn y trefi glan mor a'r pentrefi cyfagos.

Mae Atodiad 3 yn cymharu rhai o'r canlyniadau diweddar yma gydag ymchwil wyneb yn wyneb (gweler Atodiad 4) a gynhaliwyd ym Machynlleth, Corris, Aberdyfi a Dinas Mawddwy yn 2006.

Mae *Arolwg Ymwelwyr Powys 2013* yn nodi De Ddwyrain Lloegr fel y prif farchnad ar gyfer Cymru, sy'n cydfynd â *Partneriaeth ar gyfer Tŵf*: "Marchnad 'gartref' y DG yw'r prif farchnad ar gyfer Cymru a bydd yn aros fel prif ffocws y gweithgarwch marchnata yn ystod y cyfnod strategol yma. Mae'n cynrychioli 92% o holl deithiau ymwelwyr preswyl ac 84% o wariant ymwelwyr preswyl.....ymddengys fod gennym gryn gyfle i ymestyn [ein] cyfran o ymwelwyr gwyliau o Lundain a'r De Ddwyrain a Dwyrain Canoldir Lloegr". Er hynny, ni ddylid anwybyddu'n marchnad graidd: mae tua trydedd o'n hymwelwyr dros nos yn dod o Orllewin y Canoldir.

Mae'r arolwg yn casglu fod "Dyffryn Dyfi'n denu cyfartaledd uchel o 'Gyplau Darganfod Diwylliant Hŷn' (25% o'i ganran preswyl o'r DG) o gymharu a gweddill Powys (9%). Er gwaethaf balchder yr ardal yn ei gynigion ar gyfer beicio mynydd a cherdded, "dim ond 16% o'r rhai sy'n ymweld â Dyffryn Dyfi sy'n dweud eu bod yno i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Mewn llety hunan arlwy mae'r gyfran fwyaf o welyau ymwelwyr yr ardal, yn enwedig mewn parciau carafan/cartrefi gwyliau. Mae'r clwstwr mwyaf ohonynt yn Ynyslas/Borth/Clarach, yn Nerwenlas/Machynlleth/Penegoes ac yn Aberdyfi, gydag eraill yn rhannau uchaf Dyffrynoedd Dyfi a Dulas. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cyfrif am swm sylweddol o fasnach cynadledda preswyl.

Mae *Arolwg Ymwelwyr Powys 2013* yn dweud fod ymwelwyr i Ddyffryn Dyfi'n graddio Cymru'n uchel iawn fel lle da i'w ymweld, gan sgorio cyfartaledd o 9.8 allan o 10, sy'n cydweddu â'r ganran uchel o ymwelwyr dychwel, ffyddlon.

Mae'r ardal yn ffodus iawn o gael gwasanaeth Lein y Cambrian, sy'n darparu cyswllt cyfleus o'r Amwythig a theithiau godidog ar hyd yr arfordir i'r ddau gyfeiriad o Fachynlleth. Gellir ystyried gwasanaethau bws yr ardal fel ffyrdd gwych o weld y wlad hefyd. Gyda'r bws mae'r ddarpariaeth ar gyfer teithio rhwng Aberystwyth a Dolgellau yn dda ond llai aml ar ffyrdd Dwyrain-Gorllewin. Tra bod y dyfodol ar gyfer gwasanaethau tren yn weddol ddisglair, mae yna her sylweddol i gwmnïau bws wrth i doriadau gwariant cyhoeddus ddwysáu.

Amcangyfrifwyd yn fras fod gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr yn Ardal Biosffer Dyfi tua £76.7m yn ystod 2012, yn cynnwys £29.2m ar ymweliadau dydd a £47.5m ar 287,000 ymweliad dros nos (gweler Atodiadau 5, 6 a 7). Mewn cymhariaeth, drwy ddefnyddio methodoleg wahanol, mi wnaeth cwmni Land Use Consultants amcangyfrif fod cyfanwerth twristiaeth i economi Mynyddoedd Cambria yn £32.6m, yn ol Cynllun Gweithredu Partneriaeth Cyrchfan Mynyddoedd Cambria ar gyfer 2014-2017

## **Lleoli a marchnadoedd**

Rydym eisiau 'lleoli'r' ardal fel model ymhlith cyrchfannau twristiaeth Cymru; ardal fechan sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ac yn meddu ar anrhydedd rhyngwladol unigryw yng Nghymru. Dyma ein uchelgais, ond dylai'n negeseuon marchnata ddefnyddio geirfa tra wahanol, gan ganolbwyntio ar gynigion gwych a gwerthu'r profiad – gyda'n dyheadau dwfn yn cael eu mynegi'n fwy cynnil. Byddwn yn pwysleisio'r profiadau cofiadwy ac unigryw a gaiff ymwelwyr oherwydd ansawdd a dilysrwydd eu hymweliad – y llefydd lle byddant yn aros ac ymweld, y pethau fyddant yn gwneud, gweld, clywed, arogl, bwyta ac yfed ac wrth gwrs y bobl fyddant yn eu cyfarfod. Felly mae ein gwir nod yn y cynllun yma'n 'fewnol' i ni yn y diwydiant croeso lleol.

Roedd adroddiad 2006 Arwel Jones, Cynllun Ecodwristiaeth ar gyfer Dyffryn Dyfi yn argymhell "...datblygiad graddol o dwristiaeth 'ffordd o fyw', sy'n arbennig o gyfrifol, gyda phwyslais ar agweddau fel byw a bwyta'n dda, trafndiaeth gynaliadwy, pwrcasu lleol a mentrau cymdeithasol. Dylai'r perchnogion hynny sy'n cyrraedd safonau rhagorol, rhyngwladol mewn agweddau amgylcheddol.....ddarparu ysbrydoliaeth ac arweiniad i'r broses barhaol o 'wyrddu' busnesau'r ardal, gan gadarnhau ymroddiad Dyffryn Dyfi i fywyd ac i fasnach dwristiaidd amgylcheddol gyfrifol".

Dylai'r brif thema ar gyfer Biosffer Dyfi bwysleisio twristiaeth werdd, wledig, ddiwylliannol, gyda 'gwyliu eco-gyfeillgar' fel y pennaf gynnyrch. Dylai'r cynnig craidd gynnwys gwerthfawrogiad cyfrifol o gefn gwlad (gan gynnwys cerdded, beicio a gwyllo natur), ein treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â rhai elfennau arbenigol fel ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen neu ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy – efallai hyd yn oed aros mewn tipi neu dŷ coeden, ymwneud â gweithgareddau gwyrdd, gwledig, addysgiadol neu amgylcheddol – ond mae yna lu o gynigion cydnaws sydd angen eu datblygu ochr yn ochr â rhain, gan gynnwys beicio mynydd, gweithgareddau awyr agored a chelfyddydol, twristiaeth ffydd ac achau, Owain Glyndŵr a'r Brenin Arthur.

Mae'r awgrymiadau hyn, argymhellion Strategaeth Twristiaeth Canolbath Cymru a'r dadansoddiad o'r sefyllfa uchod yn galw am roi sylw i'r marchnadoedd canlynol:

- ✓ Y farchnad fawr, draddodiadol o arhosiad wythnos neu fwy yn y tymor brig; teuluoedd fel arfer; yn bennaf ddefnyddio llety hunan arlwy (carafannau'n arbennig); llawer ohonynt o Orllewin Canoldir Lloegr;
- ✓ Eraill sy'n tueddu i fod yn gyfarwydd â'r ardal, gan gynnwys rhai sy'n aros gyda ffrindiau a pherthnasau

A blaenoriaethu'r marchnadoedd tŵf canlynol:

- ✓ Cyplau gwariant uwch (ond nid cyplau'n unig); arhosiadau byrion; dros dymor hirach; gan gynnwys rhai'n chwilio am ddilysrwydd mewn gwyliau gwledig, cyfrifol, gyda cherdded, gwyllo natur ac agweddau diwylliannol;
  - ✓ Gwyliau byrion gyda gweithgareddau, gan gynnwys beicio mynydd;
  - ✓ Unigolion sy'n chwilio am rhywbeth ychydig yn wahanol, gan gynnwys dathliadau a digwyddiadau, profiadau ar lawr gwlad, a "gwyliau gwyrdd".
- Bydd preswylwyr o Lundain a De Ddwyrain Lloegr yn elfennau pwysig o'r dair flaenoriaeth olaf, uchod.

Gellir disgrifio mwyafrif o'r bobl yma fel teithwyr annibynnol, fydd â diddordeb mewn teithau am y dydd yn ogystal â rhai dros nos, pan o fewn cyrraedd. Mae'r farchnad fusnes a chynadledda yn bwysig i Aberystwyth, gyda'r farchnad addysgiadol hefyd yn berthnasol. Nid yw'r ardal â llawer o adnoddau ar gyfer y fasnach deithio i grwpiau, heblaw am ganolfannau astudio preswyl ac arhosiadau "amser te", felly nid yw'r farchnad yma'n haeddu llawer o sylw.

## **Nod**

**Nod y Cynllun yma yw i'r ardal ddatblygu'n gyrchfan gynaliadwy o safon rhwyngwladol erbyn 2017**

### **Amcanion** (gweithredu blaenoriaethau *Partneriaeth ar gyfer Tîwf* fel y nodir mewn cromfachau)

1. Cynnig mwy i ymwelwyr, gyda phwyslais ar ansawdd ac ar y cynnig 'eco' craidd, gan gynnwys gwneud y gorau o'r hyn sydd gan yr ardal eisoes i'w cynnig (*Datblygu cynnyrch*)
2. Cryfhau ansawdd a hynodrwydd y "cefnidir cyhoeddus" a dilysrwydd y profiadau i ymwelwyr (*Datblygu pobl a'r ardal*)
3. Rheoli busnesau unigol a'r gyrchfan yn gyffredinol yn fwy cynaliadwy a mwy cydlynol (*Datblygu pobl*)
4. Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwerth i'r economi leol (*Hyrwyddo a pherfformiad proffidiol*)

Mae'r term "cefnidir cyhoeddus" ("public realm") yn cyfeirio at y mannau ac adnoddau sydd ar gael i bawb i'w gweld a'u defnyddio, gan gynnwys strydoedd a phalmantydd, llwybrau cyhoeddus, mannau poblogaidd a thraethau agored, golygfeydd a golygfannau. Yn y ddogfen yma mae'n cynnwys adnoddau fel meinciau, biniau sbwriel a chyfleusterau cyhoeddus. Felly mae'r cynllun yma'n ceisio cynyddu 'naws y lle' (hynodrwydd lleol) a'i effaith ar bob agwedd o brofiad yr ymwelydd.

## Cynllun Gweithredu

### Sut i ddarllen y tablau

Mae llawer o weithgareddau'r cynllun yn cyfrannu tuag at mwy nag un o'r Amcanion. Er hynny, maent wedi eu grwpio mewn Tablau, yn ôl yr Amcan mwyaf perthnasol fel a ganlyn:

**Tabl 1: Ffocws ar ddatblygu cynnyrch – Amcan 1**

**Tabl 2: Ffocws ar y bobl a'r ardal – Amcanion 2 a 3**

**Tabl 3: Ffocws ar hyrwyddo – Amcan 4**

Ym mhob tabl mae'r gweithgareddau wedi eu casglu mewn adrannau yn ôl y canlyniadau â ragwelir, fel y dangosir yn y crynodeb o allbynnau, isod.

Mae pob adran o'r tabl yn dechrau drwy restru gweithgareddau sy'n gyraeddadwy yn y tymor byr (2015), sydd ag adnoddau wedi eu sicrhau neu sydd o arwyddocâd arbennig. Mae'r gweithgareddau sydd â'r fath flaenoriaeth wedi eu hamlygu, fel y maent yn y Crynodeb Dabl isod.

Mae ail ran pob adran yn rhestru gweithgareddau cysylltiedig eraill sy'n dal yn lled uchelgeisiol ond llai cyraeddadwy yn y tymor byr. Y bwriad yw ei symyd i statws o flaenoriaeth uwch yn ei dro, yn dilyn gwaith i ddiffinio pwy fydd yn gwneud beth, pryd a gyda pha anoddau. Maent mewn llythrennau llai.

### Crynodeb o allbynnau a ragwelir o'r gweithgareddau

Tabl cynllun gweithredu	Canlyniadau/allbynnau a ragwelir	Nifer allbynnau o weithgareddau blaenoriaeth uchel	Allbynnau ychwanegol os ystyrir gweithgareddau cysylltiedig	
1	Datblygu cynnyrch	Uwchraddio atyniadau a llety	3	2
		Datblygu cynnyrch newydd	8	5
		Gweithgareddau datblygu /ymchwil a weithredwyd	2	3
		Gwella opsiynau trafniadaeth gynaliadwy	0	2
2	Y bobl a'r ardal	Gweithgareddau i wella'r 'cefndir cyhoeddus', naws y lle ac amlygrwydd y brand	2	3
		Ychwanegiadau i'r ddarpariaeth hysbysrwydd a dehongli	3	2
		Cynlluniau neu sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth	1	1
		Gweithgareddau i gryfhau rheolaeth cyrchfan	3	1
		Gweithgareddau i gryfhau cymwysterau gwyrdd	1	1
3	Hyrwyddo	Gwell adnoddau rhyngwrdd	6	1
		Defnydd o ddeunyddiau argraffu	1	0
		Gwaith cysylltiadau cyhoeddus	2	0

## **TABL 1 – DATBLYGU CYNNYRCH**

Anelwyd yn bennaf at: **Amcan 1:** Cynnig mwy i ymwelwyr, gan ystyried ansawdd a'r cynnig 'eco' craidd a chan gynnig gwneud y gorau o'r hyn sydd gan yr ardal esoes i'w chynnig

### **Uwchraddio atyniadau a llely:**

<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
1a	Cwblhau arsyllfa 360 a dehongli Prosiect Gwalch y Pysgod/Cors Dyfi	Dyrchafu'r profiad; mwy o ymwelwyr; ymwybyddiaeth uwch o'r Biosffer a Chors Dyfi	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn	Ar y gweill; Pasg 2014; Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cymunedau a Natur trwy ERDF
1b	Uwchraddio canolfan ac atyniad ymwelwyr CyDA; cychwyn ar Daith Darganfod 'Zero Carbon Britain'	Dyrchafu'r profiad; cynnydd yn nifer ymwelwyr	Canolfan y Dechnoleg Amgen	Codi arian; nôd 2015 (pen blwydd 40 ain y ganolfan ymwelwyr)  Pasg 2014 ar gyfer y Daith/Trywydd
1c	Dyddiau Agored ar Ffermydd gyda dehongli a webcam tylluanod	Cynyddu amrywiaeth cleientiaid; ymestyn y tymor	Doncis Dyfi	Ar y gweill; o Ebrill 2014
1d	Cyflwyno adnoddau chwarae ym maes Parcio Ffwrnais Dyfi	Dyrchafu'r profiad	Cyngor Cymuned Ysgubor-y-Coed	Codi arian; 2014/15
1e	Ymestyn Rheilffordd Corris i Dan-y-Coed	Mwy o ddefnydd; rheilffordd hirach	Cymdeithas Rheilffordd Corris	Cynllunio a chodi arian; ansicr



<b>Datblygu cynnyrch newydd:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
1f	Datblygu gweithgareddau ar sail smart-ffôn, gwyddoniaeth dinasyddiaeth a chwaraeon cysylltiedig	Ymwelwyr yn cyfranogi drwy lanlwytho ac adolygu gwybodaeth amgylcheddol	Consortiwm COBWEB	Cynllunio; cyfnod arddangos 2015; cymhorthdal ymchwil Ewropeadd
1g	Creu trywydd 'dehongli'r ffydd' yng Ngogledd Ceredigion a chanolbwynt 'Lefydd Llonydd' yn eglwys Llandre	Capeli ac eglwysi ar agor yn amlach; cynnyrch newydd	Treftadaeth Llandre	Ar y gweill; 2014; Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ERDF a chyfranwyr
1h	Rhwydwaith glos o safleoedd gyda hysbysrwydd a Wynebau'r Biosffer yno (gweler 2k), fel 'Ffyrdd y Biosffer', oll â chysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus da	Mwy yn dod i wybod beth yw'r Biosffer, a'i ddarganfod	CTBD	Cynllunio; 2014 hwyr; dechrau gyda gwefan; cynnydd yn ddibynnol ar gyllid cydlynu – gweler 2m
1i	Cydlynu a hyrwyddo rhaglen ddigwyddiadau, yn enwedig rhai'n gysylltiedig â byd natur	Ymwybyddiaeth uwch o fywyd gwyllt; mwy'n mynychu digwyddiadau	CTBD gyda 'Natur y Canolbarth'	Dan drafodaeth; 2014; dibynnu ar gyllid cydlynu – gweler 2m
1j	Hyrwyddo teithiau tren ac Amgueddfa'r Borth fel atyniadau	Mwy o deithwyr	Partneriaeth Rheilffordd Cambria	Mynd rhagddynt

1k	Gwellia, dehongli a hyrwyddo llwybrau penodol	Gwell gwerthfarogiad o, a mynediad i, gefn gwlad	Cyfoeth Naturiol Cymru (Darganfod Dyfi)	Ar y gweill; 2014; cronfa Cymunedau a Natur drwy ERDF
1l	Datblygu rhaglen teithiau tywys; cyhoeddi trywyddau cerdded o safleoedd ymwelwyr a rhai bws/tren	Mwy o ddefnydd o Hawliau Tramwy dibynadwy	Ecodyfi, Partneriaeth Rheilffyrdd Cambria, Cymdeithas y Cerddwyr, awdurdodau lleol, PCE	Agweddau ar y gweill; 2014; nifer/hyd yn ddibynol ar gyllid (gweler 2m) ac adnoddau i weithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gan awdurdodau lleol
1m	Teithiau tywys mulod	Hudo cleientiaid newydd; profiad unigryw i ymwelwyr	Doncis Dyfi	Cynllunio; peilot ar 29 Medi 2014
1n	Diffinio a hyrwyddo grŵp busnes: "Blas y Biosffer"	Gwell sylw i gynigion bwyd a diod lleol, gan gynnwys Marchnad Ffermwyr Aberystwyth	Ecodyfi	Cynllunio; 2014/15; dibynol ar gyllid cydlynu - gweler 2m
1o	Darganfod, datblygu a chyd hyrwyddo 'gwyliau â gwersi': iaith Gymraeg, cadwraeth, treftadaeth, crefftau, bywyd gwyllt, achyddiaeth	Darparwyr llety a gweithgareddau'n cydweithio; pecynnau â brand y Biosffer	CTBD, CyDA, Ymddiriedolaeth y Tabernacl Machynlleth, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn, Amgueddfa Ceredigion, Y Llyfrgell Genedlaethol, Prifysgol Aberystwyth	Datblygu 2014; hyrwyddo 2015; dibynol ar gyllid cydlynu - gweler 2m
1p	Datblygu elfennau ymwelwyr o 'Goed Gwyllt Cambria'	Profiadau ymarferol; llif incwm	'Sefydliad Gwylltir Cymru'	Hir dymor
1q	Cyflwyno helpa drysor/'geo-caching'i brofiadau Biosffer Dyfi	Ymweliadau gan ddilynwyr	Ecodyfi, i wefan y Biosffer	Dan drafodaeth, 2014 hwyr; dibynol ar gyllid - gweler 2m
1r	Ymchwil dichonoldeb i wella a hyrwyddo mynediad i dreftadaeth hynafol e.e. ffynhonnau, carneddau	Gwella gwarchodaeth, mapio ac ymweliadau â meini hirion ac ati	Ecodyfi; gyda gwirfoddolwyr	Dan drafodaeth; 2014 hwyr; dibynol ar gyllid cydlynu - gweler 2m

<b>Gweithgareddau datblygu/ymchwil a weithredwyd:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
1s	Ymchwilio i'r awch am statws 'Croeso'r Cerddwyr', gŵyl gerdded a chyfeirlyfr o adnoddau gerllaw Llwybr Glyndŵr a Llwybr Arfordir Cymru	Cydnabod Machynlleth fel canolfan gyswllt i Llwybr Glyndwr a Llwybr Arfordir Cymru; mwy o gerddwyr yn defnyddio'r ardal	CTBD, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Cymdeithas y Cerddwyr	Dan drafodaeth; cychwyn 4 Mawrth 2014; cynnydd yn ddibynnol ar gyllid - gweler 2m
1t	Ymchwil boddhad cwsmeriaid/proffil	Gwell dealltwriaeth o ymateb y farchnad ac ymwelwyr i'r ardal	Prifysgol Aberystwyth, CTBD	Dibynnol ar gyllid; 2014 os yn bosib
1u	Datblygu cronfa ddata a chymell cydweithio – gweithgareddau awyr agored	Darparwyr gweithgareddau awyr agored i gydweithio gyda darparwyr eraill i ennyn mwy o fusnes	CTBD gyda Beicio Mynydd Dyfi, Anturiaethau Singletrack, Outward Bound, a Dyfi Active	Dan drafodaeth; 2014; dibynnu ar gyllid cydlynu – gweler 2m
1v	Datblygu cronfa ddata ac ennyn cydweithio – gwyliau a digwyddiadau	Marchnata ar y cyd	CTBD gyda Phrifysgol Aberystwyth, Dyfi Enduro a Gwyl Gomed Machynlleth	Dan drafodaeth; 2014; dibynnol ar gyllid cydlynu – gweler 2m
1w	Datblygu cronfa ddata ac ennyn cydweithio – twristiaeth celfyddydol, gan gynnwys Trywydd Celf Ceredigion	Preswylfeydd yn y celfyddydau, gwell mynediad i gelf	CTBD, CyDA, Ymddiriedolaeth Y Tabernacl Machynlleth, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, LlanD	Dan drafodaeth; 2014; dibynnol ar gyllid cydlynu – gweler 2m

<b>Gwella dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
1x	Sicrhau gwasanaeth tren bob awr	Cynyddu defnydd o'r rheilffyrdd	Llywodraeth Cymru	Sefydlwyd grŵp gweithredol 2013
1y	Arosfan bws ger Morben Isaf i wasanaethu Cors Dyfi/Gwalch y Pysgod	Cynnydd yn nifer sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus	TraCC, gydag awdurdodau lleol	Angen lobio; ansicr

## **TABLE 2 – Y BOBL A'R ARDAL**

Anelwyd yn bennaf at **Amcan 2:** Cryfhau answadd ac arbenigrwydd y 'cefnidir cyhoeddus' a dilysrwydd profiadau ymwelwyr  
**Amcan 3:** Rheoli busnesau unigol a'r gyrchfan gyffredinol i ymwelwyr yn fwy cynaliadwy a chydlynol

<b>Gweithgareddau i wella'r cynigion cyhoeddus, naws y lle ac amlygrwydd y brand:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
2a	Creu cynllun gweithredu i wella'r 'cefnidir cyhoeddus' gan ddechrau ym Machynlleth trwy ddefnyddio canfyddiadau myfyrwyr	Gwell arwyddion, golwg a gwasanaethau; gwell cyfieriadedd ac argraff; digonedd o gyfleusterau cyhoeddus	Ecodyfi, cynghorau cymuned, tref a sir, PCE	Cynllunio; amcanu mesurau cyntaf Pasg 2014; cyllid gweithredu ddim eto'n sicr

2b	Gosod baneri ar fusnesau	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand	CTBD	Ar y gweill; Pasg 2014; aelodau i brynu
2c	Arwyddion y Biosffer: 'Croeso ...i' a 'Rydych yn...'	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand	Grŵp Cyfathrebu	Dan drafodaeth; heb glustnodi cyllid
2d	Ennyn mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg, e.e. arwyddion, cyfarchion i gwsmeriaid mewn siopau ac ati	Ychwanegu at naws y lle	CTBD, Cered, Menter Maldwyn, busnesau	Ar y gweill
2e	Cymryd rhan yng nghynlluniau 'anrhegion ymwelwyr' Cariad Cambria a Gwynedd	Llif incwm i weithgareddau penodol; cryfhau cyswllt ymwelwyr â'r fro	CTBD Menter Mynyddoedd Cambria, Cyngor Gwynedd	Cynllunio; Gwynedd/PCE yn ceisio am gyllid i greu cyfundrefn weinyddol 2014-5
<b>Gwelliannau i'r ddarpariaeth hysbysrwydd a dehongli:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
2f	Gosod arwyddion/paneli dehongli allanol mewn amryw gymunedau, gan ddefnyddio map dehongli Biosffer Dyfi	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand, naws y lle ac aros-amser	Ecodyfi ym Mhowys a Gogledd Ceredigion	Ar y gweill; 2014; cyllid o Gronfa Eleri
			Cwmni Nod Glas a Grŵp Marchnata Corris	Ar y gweill yn Ninas Mawddwy, Corris; 2014; cyllid o Gronfa Wledig Ewrop
2g	Gosod hysbysrwydd y Biosffer mewn busnesau a lleoliadau cymunedol	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand, naws y lle ac 'amser aros'	Ecodyfi gyda CTBD	Ar y gweill; Pasg 2014; cyllid wedi ei neilltuo
2h	Diweddarau prydlon ar hysbysrwydd ger arosfannau bws	Cynyddu hyder yn, a'r defnydd o, fysiau	Awdurdodau lleol	Ar y gweill

2i	Gosod paneli dehongli y Biosffer yng Nghanolfan Groeso Aberdyfi	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand, naws y lle ac 'amser aros'	PCE, Cyngor Cymuned Aberdyfi	Dan drafodaeth; presenoldeb dros dro Pasg 2014; yna'n ddibynnol ar gyllid
2j	Cyhoeddi taflen 'Teithio'r Biosffer'	Mynediad haws i hysbysrwydd cludiant cyhoeddus; cynnydd mewn defnydd	Ecodyfi, TraCC, cwmnïau cludiant	Dan drafodaeth; angen £1200 ar gyfer pob argraffiad

### Rhaglenni neu sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth:

Cyfeir nod	Gweithgarwch	Allbynnau dymunol	Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill	Statws; amseru; adnoddau
2k	Denu a chofrestru mwy o gefnogwyr neu genhadon fel Wynebau'r Biosffer – gweler Atodiad 6 - a chreu Mannau Hysbysu mewn busnesau	Rhwydwaith o bobl i gyflwyno'r brand i ymwelwyr; gwell darpariaeth o wybodaeth	CTBD, siopau, ecodyfi. Cyngor Sir Powys, Prifysgol Aberystwyth	'Wynebau' ar y gweill; 2 sesiwn arall cyn haf 2014; Medrwn / PTCC  Mannau Hysbysu dan drafodaeth; blaenoriaeth i Fachynlleth; CS Powys i gynorthwyo
2l	Addasu a defnyddio rhaglen hyfforddi gofal cwsmer	Gwell rhyngyswllt gydag ymwelwyr; mwy o fusnes ail ymweld	CTBD	Dan drafodaeth

### Gweithgareddau i gryfhau rheolaeth cyrchfan:

Cyfeir nod	Gweithgarwch	Allbynnau dymunol	Partneriaid darparu; arweiniol ac eraill	Statws; amseru; adnoddau
2m	Sicrhau cyllid ar gyfer cydlynu a datblygu'r gyrchfan	Dewis sefydliad penodol gyda'r adnoddau i gydlynu'r cynllun datblygu	Cyrchfan Biosffer Dyfi	Codi arian; cyllid yn sicr tan 31 Mawrth 2014 yn unig

2n	Denu mwy o aelodau i Gymdeithas Twristiaeth y Biosffer a chryfhau cysylltiadau gyda chlystyrau cymunedol, darparwyr gweithgareddau a sefydliadau	Cymdeithas gryfach gan arwain at gydweithio mwy effeithiol	CTBD	Mynd ymlaen; defnyddio digwyddiad CCB ar 4 Mawrth 2014 i ennyn diddordeb
2o	Sefydlu cyfundrefn ar gyfer monitro cynnydd mewn gweithgareddau – gweler yr adran sy'n dilyn y tablau	Dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd tuag at brif nod y cynllun yma; pwysau partneriaid i annog eraill	Pob partner darparu	Mynd ymlaen
2p	Sefydlu cyfundrefn sy'n ddefnyddio ystadegau ymwelwyr i atyniadau ar gyfer monitro	Gwella dealltwriaeth o berfformiad yr ecomomi ymwelwyr lleol	CTBD	Dan drafodaeth
<b>Gweithgareddau i gryfhau cymwysterau gwyrdd:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
2q	Cymell cefnogaeth i Gynllun Busnesau Twristiaeth Gwyrdd	Ymwelwyr yn hyderus o'r cymwysterau	CTBD	Mynd ymlaen
2r	Sefydlu Gwobrwyon ar gyfer arfer da cynaliadwy	Clod i'r buddugol a'r ardal; cymhelliant i wella i eraill	Cyrchfan Biosffer Dyfi	Dan drafodaeth

### **TABL 3 - HYRWYDDO**

Anelwyd yn bennaf at **Amcan 4:** Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwerth i'r economi leol

#### **Gwella adnoddau'n gysylltiedig a'r rhyngwyd:**

<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
3a	Gwella gwefan y Biosffer i ymwelwyr; gwneud gwell defnydd o wefannau 'Green Traveller', Croeso'r Canolbarth (nodweddion a thrywyddau), a'r cynghorau sir; cynnwys teithiau cerdded a lleoliadau am ddim e.e. Llwybr Beirdd Llandre, Parc Natur Penglais	Gwell gwybodaeth; mwy o ymweliadau â'r wefan	Ecodyfi, partneriaid COBWEB, Twristiaeth Canolbarth Cymru, awdurdodau lleol	Ar y gweill; 'cyrchfan' a 'Visitmidwales' erbyn Pasg 2014
3b	Hyrwyddo cytbwys rhwng arwyddwyr y Siarter â'r Biosffer	Mwy o ymwelwyr i'r wefan	CTBD, ecodyfi	Mynd ymlaen
3c	Mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol	Proffil uwch	Ecodyfi, pawb	Mynd ymlaen
3d	Defnyddio 'lliwiau naws ein lle' sy'n deillio o sesiynau Wynebau'r Biosffer	Negeseuon penodol ar sail straeon lleol	CTBD, ecodyfi	Cynllunio; 2014/15



3e	Rhoi dewisiadau di-gar gyntaf yn adran 'Sut i ddod yma'	Arferoli'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus	Busnesau	Mynd ymlaen; di gost
3f	Datblygu'r rhaglen 'Tren Aros Arbed'	Mwy o ddefnydd o'r tren i gyrraedd cyrchfan; gwyliau byrion o Ganoldir Lloegr	Trenau Arriva Cymru	Ar y gweill; Ebrill; dan sylw
3g	Creu adnoddau marchnata i'r farchnad addysgiadol	Mwy o fusnes	Grŵp Addysg y Biosffer?	Dan drafodaeth
<b>Defnydd o argraffu:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
3h	Gwerthuso'r angen am froliant i ymwelwyr 'ymlaen llaw' a thaflen 'wrth gyrraedd'		GTBD, Grŵp Cyfathrebu Biosffer Dyfi	Dan drafodaeth; penderfyniad erbyn Haf 2014; cyllid ddim yn sicr
<b>Gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus:</b>				
<b>Cyfeir nod</b>	<b>Gweithgarwch</b>	<b>Allbynnau dymunol</b>	<b>Partneriaid darparu: arweiniol ac eraill</b>	<b>Statws; amseru; adnoddau</b>
3i	Cyswllt cyson gyda chontractwyr cysylltiadau cyhoeddus cyrchfannau	Proffil uwch; mwy o ymwelwyr	CTBD	Mynd ymlaen
3j	Gwneud mwy o ddefnydd o deithiau ymgyfarwyddo i newyddiadurwyr	Mwy o son yn y cyfryngau; proffil uwch	CTBD gyda Twristiaeth Canolbarth Cymru	Mynd ymlaen

## **Cynnydd, dangosyddion, monitro ac adolygu**

- a. Bydd y grŵp cydlynw, Cyrchfan Biosffer Dyfi, yn gofyn i'r partneriaid gweithredol a enwir yn y Tablau i adrodd yn ôl yn gryno ar eu cynnydd o bryd i'w gilydd, fel y gellir diweddarau'r golofn ar 'Statws, amseru ac adnoddau'. Mae'r mecanwaith yma'n rhagdybio'r angen am:
- A. Barodrwydd y partneriaid gweithredol i fod yn agored, cydlynol a pharod eu hymateb, gan gymryd cyfrifoldeb gwirioneddol am weithgareddau perthnasol yn y cynllun yma;
  - B. Y gallu a'r adnoddau cymwys gan aelodau'r grŵp i gaffael a phrosesu gwybodaeth. Bydd yr aelodau'n ystyried creu taenlen fonitro tebyg i'r un a ddefnyddir ym Mannau Brycheiniog
- b. Rydym wedi methu dynodi dangosyddion perfformiad mesuradwy ar gyfer yr economi ymwelwyr cyfannol ar raddfa Biosffer Dyfi; er hynny gwneir ymgais yn Atodiad 5 ac mae gweithgaredd 2p uchod yn awgrymu defnyddio ystadegau ymweld ag atyniadau fel dangosydd amgen am ystadegau ymwelwyr cyfansawdd. Bydd grŵp Cyrchfan Dyfi'n ystyried addasu'r fethodoleg a ddefnyddir gan Land Use Consultants i geisio mesur yr economi ymwelwyr ym Mynyddoedd Cambria.
- c. Rydym yn disgwyl adolygu'r cynllun tua diwedd 2015 yn erbyn allbynnau pob gweithgarwch ac yn erbyn y nodweddion dilynol a addaswyd o 'Cynllun Datblygu Ecodwristiaeth i Fro Ddyfi' 2006.

<b>Amcan</b>		<b>Dangosydd ansoddol (disgrifiadol)</b>
1	Cynnig mwy i ymwelwyr o safbwynt ansawdd a chynigion eco craidd gan gynnwys gwneud mwy allan o rinweddau'r ardal	Datblygu a darparu cynnyrch gyda.....
		Brandio cryf a nodweddiadol, gyda chymorth.....
2	Cryfhau ansawdd a hynodrwydd y cefndir cyhoeddus a dilysrwydd profiadau ymwelwyr	Seilwaith ar lawr gwlad a'r ddarpariaeth hysbysrwydd/dehongli,
3	Rheoli busnesau unigol a'r gyrchfan ymwelwyr gyfan yn fwy cynaliadwy a chyfannol	Gradd o achredu a rheoli ansawdd,
		Cyfranogaeth frwd gan y fasnach dwristaidd
		Gweithio mewn gwir bartneriaeth gyda'r sector gyhoeddus, mewn.....
		Cyfundrefn ymatebol o safbwynt cydlynw a rheoli, gyda chefnogaeth....
4	Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwerth i'r economi leol.	Hyrwyddo effeithlon a chost-effeithiol.

## Geirfa

- ❖ Cadw – Ceidwad swyddogol treftadaeth adeiledig Cymru
- ❖ CyDA – Canolfan y Dechnoleg Amgen
- ❖ Menter Mynyddoedd Cambria – partneriaeth sy'n ceisio cynnal ffermydd a chymunedau traddodiadol, gwledig Ucheldir y Canolbarth
- ❖ CS – Cyngor Sir
- ❖ Cered – menter iaith Ceredigion
- ❖ Grŵp Marchnata Corris – menter adfywio i hwyluso mynediad i gyllid GDG Gwynedd
- ❖ Cronfa Eleri – cronfa i hyrwyddo agweddau cymunedol, addysgiadol a diwylliannol y bywyd cynhenid yn yr ardal o gwmpas Mynydd Gorddu
- ❖ COBWEB – Citizen OBServatory WEB – cynllun ymchwil Ewropeaidd sy'n ymwneud â gwyddoniaeth dinasyddiaeth; Biosffer Dyfi yw'r ardal brawf gyntaf
- ❖ Cwmni Nod Glas – cwmni adfywio dim-er-elw ardal Mawddwy
- ❖ GCBD - Grŵp Cyfathrebu Biosffer Dyfi – un o grwpiau gweithredol Partneriaeth Biosffer Dyfi
- ❖ GABD – Grwp Addysg Biosffer Dyfi – cyfateb i'r uchod
- ❖ CTBD – Cymdeithas Twristiaeth Biosffer Dyfi – corff masnachol, cynrychioliadol
- ❖ ERDF – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
- ❖ LlanD – Living Landscapes Dyfi/Tirluniau Byw Bro Ddyfi – rhwydwaith y celfyddydau, Biosffer Dyfi
- ❖ Fforwm Busnes Machynlleth - tudalen Gweplyfr/Facebook sy'n amcanu i hyrwyddo a chyfoethogi bywyd ym Machynlleth
- ❖ Menter Maldwyn – y fenter iaith i Faldwyn
- ❖ Natur y Canolbarth – fforwm newydd i hyrwyddo bywyd gwyllt a thwristiaeth natur yn y Canolbarth
- ❖ CNC/Cyfoeth Naturiol Cymru - y corff sy'n olynydd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth Amgylchedd Cymru ers Ebrill 2013
- ❖ CDRh/RDP – rhaglen gyllido Ewropeaidd a reolir drwy Lywodraeth Cymru
- ❖ RSPB – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- ❖ PCE – Parc Cenedlaethol Eryri
- ❖ CC – Canolfan Croeso
- ❖ PTCC – Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
- ❖ TraCC – Trafnidiaeth Canolbarth Cymru, uned sy'n cyfuno cyfrifoldebau priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus y tri awdurdod lleol perthnasol er mwyn darparu atebion rhanbarthol i faterion teithio integredig

\*\*\*\*\*

Cydlynwyd gan Andy Rowland gyda chefnogaeth ariannol PTCC, Cyfoeth Naturiol Cymru a PCE

[Andy.rowland@ecodyfi.org.uk](mailto:Andy.rowland@ecodyfi.org.uk)

01654 703965

Y Plas, Machynlleth SY20 8ER

**Biosffer Dyfi Biosphere**  
*gwerth y byd - world class by nature*

